



Joint Council for
Qualifications

Addasiadau Rhesymol ar gyfer TAG Safon Uwch Gwyddorau Arnodiad sgiliau ymarferol

AQA

CBAC

Pearson

Cambridge
OCR

Mae dogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* yn nodi'r holl drefniadau mynediad sydd ar gael. Mae rhai trefniadau yn cael eu dirprwyo i ganolfannau ac nid oes angen tystiolaeth o angen na chais ffurfiol ar-lein arnynt. Mae'r trefniadau a ddirprwyir i ganolfannau yn cynnwys geiriadur dwyieithog, enwi lliwiau, anogwr, egwyliu gorffwys dan oruchwyliaeth a/neu ddefnyddio prosesydd geiriau (gyda'r gwiriad sillafu a gramadeg wedi'i analluogi), er enghraifft. Mae trefniadau eraill yn gofyn bod tystiolaeth o angen er mwyn cefnogi cais ffurfiol ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys amser ychwanegol, darllenydd ac/neu ysgrifennydd.

Bydd y Cydlynnydd AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) yn gweithio gyda staff addysgu, ac uwch arweinwyr lle bo angen, i benderfynu ar drefniadau mynediad sy'n briodol ac yn rhesymol yng nghydestun yr Arnodiad Ymarferol.

Gan nad yw'r Arnodiad Ymarferol mewn Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg yn gydran sy'n cael ei hamseru ac fe'i cynhelir yn ystod amser gwersi arferol, nid oes angen rhoi amser ychwanegol a/neu egwyliu gorffwys dan oruchwyliaeth.

Ar gyfer ymgeisydd sydd â threfniant mynediad, a roddwyd ar waith gan y Cydlynnydd AAA, sef ei ffordd arferol o weithio, gall ddefnyddio'r trefniant hwn yn ystod yr Arnodiad Ymarferol os oes ei angen ac os nad yw'n tanseilio'r asesiad. **Yr unig eithriad yw defnyddio cynorthwydd ymarferol, gan nad yw hyn yn caniatáu i ymgeisydd ddangos ei sgiliau annibynnol/cymhwysedd o'r sgiliau ymarferol.**

Gall y ganolfan ofyn am eithriad lle nad yw ymgeisydd, oherwydd ei anabledd, yn gallu dangos fod ganddo gymhwysedd yn un neu fwy o'r sgiliau ymarferol gofynnol, nac yn gallu defnyddio cyfarpar na/neu dechnegau. **Dylid cyflwyno cais am eithriad i'r corff dyfarnu perthnasol ar y cyfle cyntaf.**

Os cytunir arno, bydd nodyn yn ymddangos ar dystysgrif yr ymgeisydd. Dylai'r ymgeisydd gymryd rhan mewn cymaint o'r gweithgarwch ymarferol â phosibl i gefnogi ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth ar gyfer asesu sgiliau ymarferol yn anuniongyrchol yn yr arholiad ysgrifenedig.

Nodir isod enghreifftiau penodol ar gyfer y Meini Prawf Asesu Ymarferol Cyffredin (CPAC).

Ar gyfer **CPAC1** mae angen i ymgeiswyr **ddilyn gweithdrefnau ysgrifenedig**.

Ar gyfer **CPAC2** mae angen i ymgeiswyr gymhwyso **dulliau ymchwiliol wrth ddefnyddio offer a chyfarpar**.

Ar gyfer **CPAC3** mae angen i ymgeiswyr **ddefnyddio amrywiaeth o offer a defnyddiau ymarferol yn ddiogel**.

Ar gyfer **CPAC4** mae angen i ymgeiswyr **wneud a chofnodi arsylwadau**.

Ar gyfer **CPAC5** mae angen i ymgeiswyr ymchwilio, cyfeirio ac **adrodd**.

Ar gyfer CPAC2 a CPAC3, mae trin offer yn sgîl sy'n cael ei asesu ac mae'n weithgaredd ymarferol y mae'n **rhaid** i'r ymgeisydd ei ddangos. **Felly, ni all cynorthwyydd ymarferol gyflawni tasgau ar ran yr ymgeisydd.**